RHAGLEN

Eisteddfod Gadeiriol Crymych a'r Cylch

yn

THEATR Y GROMLECH

dydd Sadwrn, Chwefror 2il, 2019

Cystadlaethau lleol i ddechrau am 2.00 o'r gloch
a'r cystadlaethau agored am 3.00 o'r gloch

✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧

Llywydd: Mari Grug James, Llangynnwr

✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧✧

Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Beirniaid:

Cerdd: Eleri Roberts, Y Bontfaen

Llên a Llefaru: Karen Owen, Caernarfon

Llên Ysgolion: Siân Griffiths, Abergwaun

Cyfeilydd: Jonathan Morgan, B.Mus, L.R.A.M., Y Tymbl

Arweinyddion:
Elizabeth John, Iola Phillips, Des Davies, Eifion Daniels, Rhidian Evans ac Emyr Phillips

✧✧✧✧✧✧

Mynediad: Oedolion: £3, Plant dan 16 oed ac Aelodau Côr: £1

✧✧✧✧✧✧

Swyddogion y Pwyllgor

Cadeirydd: Eifion Daniels

Ysgrifenyddion: Ann Davies, Fferm y Capel, Mynachlog-ddu
Clunderwen (Ffôn: 01994 419268)
Awen Evans, Rhostwarch, Brynberian, Crymych
(Ffôn: 01239 891637)

Trysorydd: Rachel Philipps James (Ffôn: 01239 841457)

✧✧✧✧✧✧

Am raglenni cysyllter â'r Ysgrifennydd neu'r Trysorydd.
Darperir lluniaeth. Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru

CYSTADLAETHAU
a threfn gweithgareddau'r Llwyfan

CYSTADLAETHAU LLEOL
(Cyfyngedig i blant ysgolion cynradd Y Frenni, Cilgerran, Clydau, Eglwyswrw a Llandudoch.)

1. Unawd – Blwyddyn 1 a 2 neu iau. 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
2. Llefaru – Blwyddyn 1 a 2 neu iau. 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
3. Unawd – Blwyddyn 3 a 4. 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
4. Llefaru – Blwyddyn 3 a 4. 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
5. Unawd – Blwyddyn 5 a 6. 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
6. Llefaru – Blwyddyn 5 a 6. 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.

CYSTADLAETHAU AGORED

7. Unawd – Blwyddyn 1 a 2 neu iau. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
8. Llefaru – Blwyddyn 1 a 2 neu iau. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
9. Unawd – Blwyddyn 3 a 4. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
10. Llefaru – Blwyddyn 3 a 4. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
11. Unawd – Blwyddyn 5 a 6. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
12. Llefaru – Blwyddyn 5 a 6. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
13. Unawd alaw werin – Blwyddyn 6 neu iau. 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
14. Unawd unrhyw offeryn cerdd – Blwyddyn 6 neu iau. (darn dim hwy na phum munud). 1af £8, 2il £5, 3ydd £3.
15. Unawd – Blwyddyn 7-9. 1af £10, 2il £6, 3ydd £4.
16. Llefaru – Blwyddyn 7-9. 1af £10, 2il £6, 3ydd £4.
17. Unawd alaw werin dan 18 oed. 1af £15, 2il £10, 3ydd £5.
18. Llefaru dan 18 oed. 1af Cwpan Her Aled a Lynwen ap Gwynedd a £15, 2il £10, 3ydd £5.
19. Unawd unrhyw offeryn cerdd dan 18 oed (darn dim hwy na phum munud). 1af Cwpan Her Parhaus Eiry a Gary Jones, Boncath a £15, 2il £10, 3ydd £5.
20. Unawd dan 18 oed. 1af Cwpan Her Dewi a Dilys Phillips, Isfoel a £15, 2il £10, 3ydd £5.
21. Deuawd dan 18 oed. 1af £16, 2il £10, 3ydd £6.
22. Cyflwyno Cwpan Her Parhaus "Limousins Preseli" i'w ddal am flwyddyn (rhoddedig gan y Brodyr Vaughan a'u teuluoedd, Coedcefnlas Uchaf a Felin Uchaf, Crymych) i'r cystadleuydd llwyfan mwyaf addawol dan 18 oed ym marn y beirniaid cerdd a llefaru.

23. Parti Unsain (dim llai na 4 mewn nifer) dan 18 oed. 1af Cwpan Her Parhaus er cof am y diweddar Mr Elwyn Vaughan, Coedcefnlas, ac £30, 2il £20, 3ydd £10.
24. Her Unawd dros 18 oed. 1af Cwpan Her Coffa Parhaus W. R. Evans (rhoddedig gan "Bois y Frenni") a £50, 2il £25, 3ydd £15.
25. Her Adroddiad dros 18 oed. 1af Cwpan Her Teulu Tŷ Preseli a £50, 2il £25, 3ydd £15.
26. Canu Emyn dan 25 oed. 1af Cwpan Her (rhoddedig gan deulu y diweddar Mr a Mrs Gwyn George, Crymych) a £30, 2il £20, 3ydd £10.
27. Deuawd dros 18 oed. 1af £30, 2il £20, 3ydd £10.
28. Côr Ieuenctid dan 30 oed. 1af Cwpan Her Parhaus Eilir a Martha Rees, Esgairordd, a £30, 2il £20, 3ydd £10.
29. Parti Unsain i oedolion dan 20 mewn rhif. 1af Cwpan Her Parhaus (rhoddedig gan y teulu er cof am y diweddar T. H. Phillips, Cigydd, Crymych – un o sylfaenwyr Eisteddfod gyntaf Crymych) a £30.
30. Canu Emyn dros 25 oed. 1af £30, 2il £20, 3ydd £10.
31. Cenwch im yr Hen Ganiadau. Hunan-ddewisiad. 1af £50, 2il £25, 3ydd £15

CYSTADLAETHAU/DIGWYDDIADAU
(i'w cynnal mor agos â phosib i'r amserau canlynol)

32. *4.00* – Parti Unsain oed Ysgol Gynradd. 1af Tlws Cware Trefigin ac £20 (rhoddedig gan Sheila a Granville John, Y Gamfa Wen, Blaenffos), 2il £15, 3ydd £10.
33. Parti Llefaru oed Ysgol Gynradd. 1af Tlws Olew Trefigin ac £20 (rhoddedig gan Sheila a Granville John, Y Gamfa Wen, Blaenffos), 2il £15, 3ydd £10.

    Beirniadaethau cystadlaethau llenyddol y plant.
34. Cystadleuaeth mewn cydweithrediad â Chymdeithas Eisteddfodau Cymru. 1af £30, 2il £15, 3ydd £10.
    Llefaru neu gyflwyno darn digri. Gellir dewis barddoniaeth neu ryddiaith sydd eisioes wedi'i gyhoeddi, neu gellir cyflwyno darn gwreiddiol – dim mwy na 4 munud. Rhaid sicrhau copïau i'r beirniaid. Bydd ennill mewn dwy eisteddfod leol – a dwy yn unig – rhwng Eisteddfod Genedlaethol 2018 a diwedd Gorffennaf 2019 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol 2019 am wobrau o £100, £60 a £40. Gweler yr amodau ar y we.
    Cynigir ysgoloriaeth o £500 yn yr Eisteddfod Genedlaethol (gweler gwefan Eisteddfodau Cymru am fanylion llawn o'r amodau a'r rheolau).
35. 5.*30* – Unawd allan o Sioe Gerdd. 1af Tlws Parhaol Cwmni Fflach a £30, 2il £25, 3ydd £15.

36. Cyflwyniad llafar neu ddramatig gan unigolyn neu grŵp na chymer mwy na 5 munud. 1af Cwpan Her Parhaus Cwmni Drama'r Mochyn Du a £30, 2il £15.
37. 'Sgen Ti Dalent?' Cystadleuaeth arbennig Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Agored i unigolion neu grwpiau dros 16 oed. Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa drwy ganu, dawnsio, actio, llefaru, dweud jôcs, chwarae offeryn, perfformio sgiliau syrcas, gwneud triciau – unrhyw beth sydd yn difyrru'r gynulleidfa! Ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn sy'n addas ar gyfer cystadleuaeth arall yn rhaglen yr eisteddfod. Gwobr o £50 (i'w rannu fel mae'r beirniaid yn dymuno, ond dim mwy na £25 i'r enillydd). Manylion pellach wrth yr ysgrifennydd.

***8.00* – Araith y Llywydd.**
***8.15* – Seremoni Tlws yr Ieuenctid.**
***8.30* – Seremoni Cadeirio'r Bardd.**

38. *9.00* – Prif Gystadleuaeth Gorawl – Côr i ganu dau ddarn cyferbyniol. 1af Cwpan Her Parhaus D. J. Lewis a £150, 2il £75 i'w rannu.

LLENYDDIAETH a CHYFANSODDI
(gweler Rheolau ac Amodau rhif 9 a 11)

39. Rhyddiaith Blwyddyn 2 ac Iau: "Amser Chwarae". 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
40. Rhyddiaith Blwyddyn 3 a 4: "Tegan". 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
41. Rhyddiaith Blwyddyn 5 a 6: "Llong Ofod". 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
42. Barddoniaeth Blwyddyn 2 ac Iau: "Pen-blwydd". 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
43. Barddoniaeth Blwyddyn 3 a 4: "Ffrindiau". 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
44. Barddoniaeth Blwyddyn 5 a 6: "Seren". 1af Medal a £8, 2il £5, 3ydd £3.
45. Rhyddiaith Blwyddyn 7–9: Un o'r canlynol – "Gwaith yn seiliedig ar unrhyw idiom", "Darganfod" neu "Ffugio". 1af £10, 2il £6, 3yd £4
46. Barddoniaeth Blwyddyn 7–9: Un o'r canlynol – "Y Bae", "Cymru" neu "Bro". 1af £10, 2il £6, 3yd £4
47. CYSTADLEUAETH Y GADAIR: Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 60 llinell ar y testun "Y Crefftwr". Gwobr: Cadair fechan a £40. Y gadair yn rhoddedig gan GYNGOR CYMUNED BONCATH.
48. Englyn: "I gyfarch dau ar ddydd eu priodas" 1af £15
49. Telyneg: "Yr Hen Ysgol" 1af £15
50. Limrig: "Aeth pethe un nos dros ben llestri". 1af £10
51. Brawddeg: B - O - N - C - A - TH. 1af £10

52. Pedwar Triban neu bedwar Pennill Telyn i fywyd gwyllt: 1af £15
53. Englyn Digri: "Cymydog". 1af £15
54. Soned: "Teulu". 1af £15
55. Erthygl i *Clebran* (Papur Bro'r Preseli) ar unrhyw agwedd o hanes lleol Sir Benfro heb fod dros 750 o eiriau. 1af £25. Cyhoeddir yr erthygl fuddugol yn *Clebran* – noddwyr y gystadleuaeth.

56 Cystadlaethau y Dysgwyr

a. Erthygl i Bapur Bro. Gwobr: £25 (rhoddedig gan Fenter Iaith Sir Benfro)

b. 1. Lefel Mynediad – Creu deialog rhwng dau berson mewn dosbarth Cymraeg. 1af £15, 2il £10, 3ydd £5 (dim mwy na 150 o eiriau)

2. Lefel Sylfaen – Creu dyddiadur diwrnod. 1af £15, 2il £10, 3ydd £5 (dim mwy na 150 o eiriau)

3. Lefel Canolradd / Uwch – Ysgrifennu ebost neu lythyr yn annog ffrind i fynychu dosbarth Cymraeg. 1af £15, 2il £10, 3ydd £5 (dim mwy na 300 o eiriau)

Noddir cystadlaethau 56b gan
Wasanaeth Cymraeg i Oedolion Sir Benfro

57. TLWS YR IFANC i ddisgyblion Ysgolion Uwchradd: Darn o lenyddiaeth mewn unrhyw gyfrwng addas i'w gynnwys mewn ffolio ysgol. Gwobr: Tlws Parhaus yn rhoddedig gan Lyn ac Audrey Davies, Brynstop, Hermon, £25 a thlws bychan i'w gadw.
58. Cyfansoddi Cyfansoddi Emyn "i'w ganu mewn oedfa wrth gau capel" Gwobr: Tlws Parhaus (rhoddedig gan Deulu Esgairordd er cof am Eilir) a £25.

Y cyfansoddiadau i fod yn llaw'r ysgrifennydd Llên:
Awen Evans, Rhostwarch, Brynberian, Crymych, Sir Benfro. SA41 3TG
erbyn Ionawr 11eg, 2019.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn ddiffuant i holl noddwyr yr Eisteddfod.
Diolch hefyd i'r gwragedd am eu gwaith diflino
yn darparu'r lluniaeth drwy gydol y dydd.

RHEOLAU AC AMODAU

1. Bydd pob cystadleuydd yn ddarostyngedig i'r amodau hyn ac i unrhyw amodau eraill a berthyn i unrhyw gystadleuaeth.
2. Bydd barn y beirniaid yn derfynol ac fe ganiateir iddynt atal, rhannu neu gwtogi gwobrau.
3. Bydd y testunau yn agored oni nodir yn wahanol.
4. Rhaid i bob cystadleuydd fod yn yr oedran gofynnol ar ddydd yr Eisteddfod.
5. Ni chaniateir defnyddio'r un darn gan yr un cystadleuydd mewn cystadlaethau gwahanol.
6. Rhaid i bob cystadleuydd ofalu am gopi i'r Beirniaid a'r Cyfeilydd. Y mae copïo cerddoriaeth argraffedig sydd o dan hawlfraint yn anghyfreithlon.
7. Ni chaniateir cystadlu ond yn y Gymraeg.
8. Rhaid i bob cystadleuydd llwyfan ddod i'r blaen cyn dechrau'r gystadleuaeth.
9. Y cyfansoddiadau llenyddol i fod yn llaw'r Ysgrifenyddes erbyn Ionawr 11eg, 2019. Rhaid rhoi ffugenwau yn unig ar y cyfansoddiadau, a chyda phob cyfansoddiad amgaeër amlen tan sêl yn cynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn y cystadleuydd a theitl a rhif y gystadleuaeth â ffugenw'r cystadleuydd arni.
10. Bydd y cyfansoddiadau llenyddol buddugol yn eiddo i Bwyllgor yr Eisteddfod. Dychwelir y cyfansoddiadau bythefnos ar ôl yr Eisteddfod ond i'r perchennog wneud cais ac amgau amlen â stamp.
11. Ni thraddodir beirniadaeth ym mhob cystadleuaeth ond fe ellir gofyn am sylwadau ysgrifenedig.
12. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamweiniau na cholledion a all ddigwydd yn ystod yr Eisteddfod.
13. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus. Bydd barn y Pwyllgor yn derfynol.

NODDWYR YR EISTEDDFOD 2019
(hyd at fynd i'r wasg)

Cyngor Sir Penfro

Cynghorau Cymuned Boncath, Clydau, Crymych a Mynachlog-ddu

Cware ac Olew Trefigin

Clebran

Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Cymdeithas Waldo

Menter Iaith Sir Benfro

Granville a Sheila John, Y Gamfa Wen

Ronnie Lewis, Crymych

Ann Batey, Llundain

Aelodau Clwb 100

Dymuna'r Pwyllgor gydnabod yn ddiolchgar gyfraniad o £435, oddi wrth Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen at Eisteddfod 2019

✧✧

Eisteddfod Brynberian

DYDD SADWRN, CHWEFROR 16eg, 2019

Ysgrifenyddes: Mrs Ceri Davies (ffôn: 01239 891296)

✧✧

Eisteddfod Maenclochog

DYDD LLUN, MAI 6ed, 2019

Ysgrifenyddes Llên: Mrs Julie Thomas (ffôn: 01994 448756)

✧✧

Eisteddfod Llandudoch

DYDD SADWRN, MAI 18fed, 2019

Ysgrifenyddes: Mrs Melrose Thomas (ffôn: 01239 615196)

✧✧

Olew Oil

Trefigin

Cware Quarry

Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg

DERV
TANWYDD TŶ
DISEL FFERM
LIWBOLEW

TYWOD
GRAEAN
CERRIG
BLOCS

www.trefigin.cymru

(01239) 881630

ABERTEIFI

(01239) 881282

Argraffwyr E. L. Jones, Aberteifi (01239 612251)